# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD DYDD MERCHER, 28 MEHEFIN 2017

**YN BRESENNOL:**

**Cyngor Sir Ynys Mon**
**Y Cynghorwyr:** Richard Dew, John Griffith, Bryan Owen, Kenneth Hughes a Richard O Jones

**Cyngor Sir Gwynedd**
**Y Cynghorwyr:** Dafydd Meurig, Owain Williams, Catrin Wager, Sian Wyn Hughes a Berwyn Parry Jones

**SWYDDOGION:** Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr CG), Nia Haf Davies (Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn), Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd CG),Dylan Williams (Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol) ac Eirian Harris (Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol – UPCC)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Cafodd Cyng. Richard Dew ei ethol fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2017 - 2018.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cafodd Cyng. Dafydd Meurig ei ethol fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2017 - 2018

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Brynmor Hughes, John Pughe Roberts (CG), Robin Williams a Nicola Roberts (CSYM)

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 6. COFNODION

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 26 Mehefin 2016 fel y rhai cywir ac fe wnaeth y Cadeirydd eu harwyddo.

## 7. CYFRIFON TERFYNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd yn benodol am gyfrifo ac archwilio cyfrifon Pwyllgorau ar y Cyd.

Eglurwyd fod angen cwblhau ffurflenni swyddogol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru a byddai'r ffurflenni'n destun archwiliad ar wahân.

Cyflwynwyd copi o'r ffurflenni yn Atodiad A & B. Bydd yr Archwilydd Penodedig, sef Deloitte, (archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Gwynedd) yn archwilio'r wybodaeth. Esboniwyd i'r Pwyllgor nad oes angen ail-gyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ym mis Medi 2017 (cyn iddo gael ei ardystio gan yr Archwiliwr) oni bai bydd angen tynnu sylw'r Pwyllgor at newidiadau argymhellir gan yr Archwilydd Penodedig.

Materion a godwyd:

i. Beth oedd cyfanswm y gost o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – nid oedd y manylion penodol gan y swyddogion. Er hynny, cyfeiriwyd at adroddiadau a gyflwynwyd yn flaenorol a oedd yn cyfeirio at y costau. Nodwyd bod cyfanswm y gost heb gynnwys costau staff oddeutu £1,000,000 a rannwyd rhwng y ddau Gyngor.

ii. Cyfeiriwyd at y ffaith bod llai o arian wedi ei wario ar elfennau fel yr Archwiliad Cyhoeddus ac argraffu. Nodwyd mai'r rheswm am hynny oedd nad ydi'r broses wedi dod i ben yn llwyr eto. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn ag cyllid ar gyfer cwblhau'r broses yn ystod 2017 – 2018, derbyniwyd cadarnhad bod costau cwblhau'r broses wedi cael ei gynnwys ym mhroffil gwariant 2017 – 2018.

iii. Holwyd beth oedd cynnwys y ffigwr gwariant 'Costau Staffio Eraill'? Esboniwyd fod y gwariant yma yn costau diswyddiad.

Fe gafodd y dogfennau perthnasol eu harwyddo gan y Cadeirydd ar ran Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

## 8. CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwynwyd darnau allan o'r Gytundeb sy'n bodoli rhwng y ddwy Sir ynglŷn â'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Nodwyd bod llawer o'r tasgau wedi cael eu cwblhau oherwydd bod y broses paratoi'r Cynllun bron a dod i ben. Er hynny, bydd gan y Pwyllgor swyddogaeth yn gysylltiedig â phenderfynu ar gynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol a'r gwaith i fonitro gweithrediad polisïau os penderfynir i fabwysiadu y Cynllun.

'Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddyddiadau a oedd yng nghalendr pwyllgorau'r Cynghorau. Tynnwyd sylw'r Aelodau at gyfarfod ychwanegol sy'n cael ei drefnu ar 14 Gorffennaf 2017.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 4.30 y.h.

**CADEIRYDD**